

Cylchlythyr Chwefror



Bu'm yn lwcus i ddechrau mis Chwefror gyda 'bwgi' gyda '**Bwmbocs**' **Cerddoriaeth Cymraeg** yn y maes parcio i ddathlu #DyddMiwsigCymru. Bu'r disgyblion yn dawnsio yn yr awyr agored i ganeuon poblogaidd Cymreig. Ar Ddydd Miwsig Cymru, bu'r Criw Cymraeg yn cynnal gwasanaethau i bob dosbarth a darganfod hoff ganeuon y disgyblion. Yn y prynhawn, bu'r criw yn paratoi disgo i'r ysgol gyfan. Da iawn a diolch i'r Criw Cymraeg a Mrs Turner am baratoi wythnos llawn hwyl.

Roeddwn yn lwcus i gael cipolwg ar wersi **TGCh** disgyblion Cyfnod Allweddol 2 i weld sut mae eu sgiliau codio yn datblygu gyda Minecraft. Roeddwn yn falch o weld y disgyblion yn cyd-weithio i adeiladu pentref rhithiol Llanrhaeadr ym Mochnant, ble roedd bob plentyn yn adeiladu ardal wahanol o'r pentref neu'r ardal leol. Roeddent yn defnyddio sgiliau codio i greu trychinebau fel llifogydd ac ystyried yr effaith. Bu disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn defnyddio eu sgiliau codio i greu mesurydd camau gyda Micro:bits. Roedd hwn yn brosiect cydweithiol rhwng ysgolion yr ardal, gan rannu eu data i greu taenlen. Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen wedi bod yn creu graffiau i ddangos taldra ac wedi cyd-weithio ar-lein i gynllunio'r thema ar Jit.

Ar Chwefror 5ed roedd hi'n **Ddiwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel**, ond bu'm yn dathlu drwy'r wythnos gan ei fod yn agwedd mor bwysig. Roeddwn yn medru esbonio neges bwysig am 'ganiatâd' mewn gwasanaeth ar ddechrau'r wythnos, cyn i Arweinwyr Digidol gynnal gwasanaethau dosbarth i sôn am beryglon posib. Mewn gwasanaeth arall ar ddiwedd yr wythnos chwaraesom gêm ble roedd yn rhaid i'r disgyblion ddyfalu oedran ar gyfer chwarae gemau fideo penodol. Roedden wedi synnu faint ohonynt nad oedd yn addas i blant eu hoed nhw. Mae'n bwysig iawn nad yw plant yn chwarae gemau sydd ddim i'w hoedran nhw, ond hefyd yn bwysig nad ydynt yn gwylio eraill yn eu chwarae, gan fod hyn â'r un effaith seicolegol. Byddwn yn trafod e-ddiogelwch a beth allwch chi fel rhieni wneud i amddiffyn eich plentyn yn ein noson wybodaeth ar **Dydd Mawrth 5ed o Fawrth 6yh**.

Bu disgyblion **Cyfnod Sylfaen** yn dathlu Flwyddyn Newydd Tseiniaidd ar Chwefror 5ed i ddathlu blwyddyn y mochyn! Cawson ddiwrnod llawn hwyl yn gwneud crefftau Tseiniaidd, ysgrifennu geiriau Tseiniaidd, chwarae gemau a bwyta bwyd Tseiniaidd, diolch i'n cogydd Tseiniaidd, Miss Huws. Aethant ymlaen i gynllunio Ysgol Marchog gan ysgrifennu posteri a llythyr i rieni i hysbysebu'r digwyddiad ar ddiwrnod olaf y tymor. Am ddiwrnod bendigedig!

Yn **Cyfnod Allweddol 2** bu'r disgyblion yn dysgu am drychineb argae Brazil yn Brumadinho. Bu blwyddyn 5 a 6 yn ysgrifennu llythron i lywodraeth Brazil, yn esbonio beth oeddent yn meddwl y dylai ddigwydd yn dilyn y trychineb. Bu blwyddyn 3 a 4 yn creu posteri i helpu pobl ddigartref. Yn gwyddoniaeth, bu disgyblion yn dysgu am solidau, hylifau a nwyon a arweiniodd at ysgrifennu stori am y gylchred dŵr.

Rydym yn falch i gyhoeddi y byddwn yn lansio ein **ap cyfathrebu rhieni** gyda ParentMail ar ôl hanner tymor. Ar Ddydd Llun Mawrth 4ydd, byddwch yn gallu cofrestru i gael cyfrif rhiant ar eich ffôn symudol neu tabled. Os nad oes gennych yr un o'r rhein, fe fydd modd cael mynediad i'ch cyfrif ar gyfrifiadur. Fel rhan o'r gwasanaeth byddwch yn medru trefnu amseroedd noson rhieni, rhoi slipiau caniatâd ar gyfer trip a digwyddiadau chwaraeon, gyrru neges i'r ysgol am salwch a unrhyw broblemau. Byddwch yn cael eich hysbysu am ddigwyddiadau gyda calendr. Bydd y gwasanaeth hwn yn rhoi cyfle i ni yrru neges destun os oes neges bwysig i'w rhannu megis ysgol ar gau. Byddwn yn cynnal noson wybodaeth ar Ddydd Mawrth 5ed o Fawrth ble byddwn yn dangos i chi sut i ddefnyddio'r ap a bydd staff yno i helpu rhieni osod eu ap os oes angen cymorth arnoch.

Cafodd y penderfyniad i brynu'r ap newydd ei wneud ar ôl casglu data drwy ein harolwg rhieni. Diolch i bawb a lenwodd yr arolwg. Mae'r canlyniadau a fy ymateb i'r nodiadau a wnaed wedi cael ei yrru allan yn gynharach. Diolch yn fawr i'r **CRhA** am helpu ariannu'r ap. Mae nhw hefyd

wedi helpu ariannu drymiau samba ar gyfer gwersi cerddoriaeth, mwy o offer TGCh a byddant hefyd yn ariannu ymelwyr Cymraeg a fydd yn gweithio gyda disgyblion i hybu profiadau Cymreig cyfoethog. Mae cyfarfod CRhA nesaf ar **Ddydd Mawrth Ebrill 9fed am 7yh.**

Ar ôl y hanner tymor byddwn yn cynnal ein **Eisteddfod** ysgol. Rydym yn cynnal y diwrnod i ddatlu Dydd Gwyl Dewi, sydd eleni yn ystod y gwyliau, ar Fawrth y 1af. Ar y diwrnod bydd pob plentyn yn cymryd rhan mewn o leiaf un o'r canlynol: llefaru, canu, celf (pob oedran), offeryn cerdd, dawnsio disgo ac ysgrifennu (Cyfnod Allweddol 2 yn unig). Bydd y disgyblion yn cystadlu ar gyfer pwyntiau i'w fîm. Mae eich plentyn wedi cael eu rhoi yn **Berwyn, Rhaeadr** neu **Tanaf** a rydym yn eu hannog i wisgo lliw eu fîm ar y diwrnod. Bydd yr enillwyr yn ennill cwpan a mae yna wobrau unigol hefyd. Os gwelwch yn dda a fedrwch wirio gyda'ch athro/athrawes dosbarth pa dîm yw eich plentyn.

Yn **Eisteddfod Ddawns yr Urdd**, perfformiodd grŵp dawnsio creadigol yn wych ac maent trwy i'r rownd nesaf yn Drenewydd ar Fawrth 26ed.

Eto nid oes llawer o **ddigwyddiadau chwaraeon** y mis hwn. Aeth blwyddyn 5 a 6 i athletau yn Ysgol Uwchradd Llanfyllin ar ddiwrnod olaf y tymor a chawson lawer o hwyl yn cystadlu mewn decathlon o weithgareddau.

Amgaeaf y fwydlen cinio Gŵyl Dewi ar gyfer **Dydd Mawrth, 5ed o Fawrth**. Plis nodwch bydd y fwydlen cinio yn cychwyn ar **wythnos 2**.

Gobeithio y cewch chi a'ch plentyn/plant wyliau hanner tymor braf. Edrychwn ymlaen at eich croesawu yn ôl ar **Ddydd Llun Mawrth 4^{ydd}** am hanner tymor prysur a hwyl.

Cofion



Mr Jonathan Richards

25-29 Chwef	Gwyliau Hanner Tymor	Hysbysiadau
5/3/19	Noson Wybodaeth (Ap newydd) 6yh	Adran Urdd Dydd Mercher tan 4.15yp.
7/3/19	Traws Gwlad yn Forden 4yp	Clwb Dawnsio Dydd Iau tan 4.15yp.
8/3/19	Diwrnod y Llyfr (Gwisgo fel hoff gymeriad)	Batris Rydym yn parhau i gasglu batri i obeithio hel arian ar gyfer yr ysgol.
11/3/19	Dyddiad cau gwaith celf yr Urdd	Plis nodwch bydd y fwydlen cinio yn cychwyn ar wythnos 2 .
13/3/19	WASPS Gala Nofio yn Trallwm	Gadewch i ni wybod eich barn am y cylchlythyr newydd.
14/3/19	Eisteddfod Ysgol	Cysylltwch a ni gyda unrhyw ymholiadau ar 01691780352 neu office@llanrhaeadr.powys.sch.uk
14/3/19	Traws Gwlad yn Llanfyllin	
16/3/19	Eisteddfod yr Urdd Cylch Llanfyllin	
20/3/19	Cymru v Trinidad – Trip i Wrecsam	
21/3/19	Traws Gwlad yn Llanfair Caereinion	
26/3/19	Eisteddfod Ddawns Sir yn Drenewydd	
29/3/19	WASPS Traws Gwlad yn Trallwm	
30/3/19	Eisteddfod yr Urdd -Sir yn Drenewydd	
9/4/19	Rygbi Tag Urdd (marched) Cyfarfod CRhA 7yh	
11/4/19	Traws Gwlad Powys yn Builth Wells	
12/4/19	Diwrnod Dim Disgybl Bingo Pasg CRhA 7yh	
15 – 26 Ebrill	Gwyliau Pasg	